Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth

Er mwyn cyflwyno unrhyw sylwadau, cwynion neu ganmoliaeth ynglŷn â Tir Coed, ei staff, contractwyr, gwirfoddolwyr neu unrhyw un o'i weithgareddau, cliciwch yma.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unigolion (aelodau'r cyhoedd) a sefydliadau sy'n dymuno gwneud sylwadau, canmol neu gwyno am unrhyw weithgareddau neu gyrsiau a gynigir gan Tir Coed a/neu ymddygiad gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a thrydydd parti sy'n gweithio i Tir Coed neu'n ei gynrychioli.

Gall staff, contractwyr a gwirfoddolwyr gyflwyno sylwadau neu gwynion drwy weithdrefnau mewnol Tir Coed.

Sut i gyflwyno canmoliaeth, sylw neu gŵyn:

Beth bynnag fo'ch perthynas gyda Tir Coed – hyfforddai, mynychu digwyddiad neu'n aelod o'r cyhoedd – rydym ni'n croesawu eich adborth – y da a'r drwg.

Mae eich barn yn bwysig i ni gan ei fod yn ein helpu i wella'r gwasanaethau a'r gweithgareddau yr ydym ni'n eu darparu.

P'un a ydych chi'n dymuno anfon sylw, canmoliaeth neu gŵyn, cysylltwch gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu, Jenna Morris, gan ddefnyddio'r dudalen gyswllt neu drwy e-bostio dev.director@tircoed.org.uk

Sylwadau

Rydym ni'n croesawu adborth am unrhyw weithgareddau a chyrsiau a ddarperir gennym, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw welliannau yr ydych chi'n credu y byddai modd i ni eu gwneud i'n gwasanaethau. Mae sylwadau'n ein galluogi i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau'n bodloni gofynion defnyddwyr, ac yn helpu i lywio'r penderfyniadau sefydliadol a wnawn er mwyn cynnal safon ein gweithgareddau.

Canmoliaeth

Os ydych chi'n hapus gyda'r gwasanaethau a dderbyniwyd gennych neu unrhyw gyswllt posibl gyda'n staff, hyfforddeion neu weithgareddau cyffredinol, byddem ni'n falch iawn o glywed gennych chi. Trwy rannu'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud yn dda, gallwn roi canmoliaeth lle bo'r angen ac mae'n ein cynorthwyo i barhau i wneud yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yn dda a hyd yn oed gwella ar hynny.

Cwynion

Mae'n ddrwg gennym os ydych chi'n teimlo nad ydym ni wedi bodloni eich disgwyliadau. Rydym ni'n benderfynol o sicrhau bod eich cwyn yn cael ei glywed a'i drin yn deg ac yn llawn er mwyn i ni allu unioni'r mater.

Sut yr ydym ni'n ymdrin â chwynion:

Bydd unrhyw gŵyn a dderbynnir (yn ysgrifenedig yn ddelfrydol) yn cael ei gydnabod o fewn pum diwrnod gwaith.

Ein nod yw ymateb i gŵyn yn llawn o fewn 20 diwrnod o'i dderbyn.

Apelio

Os ydych chi'n anhapus gyda'r ffordd yr ydym ni wedi ymdrin â'ch cwyn, gallwch apelio trwy gysylltu â Chadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan ddefnyddio'r dulliau a amlinellir uchod.

Er mwyn ein cynorthwyo i ymdrin â'ch canmoliaeth, sylw neu gŵyn yn y modd mwyaf effeithiol, nodwch y gwasanaeth neu'r gweithgaredd sydd dan sylw.

Cofiwch hefyd gynnwys eich enw llawn, manylion cyswllt a sut yr hoffech chi i ni gysylltu â chi.

Bydd cwynion yn ymwneud â Tir Coed yn cael eu trin yn gyfrinachol. Os byddwch chi'n gwneud cwyn, ni fydd hynny'n effeithio are ich perthynas gyda Tir Coed nac yn eich rhwystro rhag defnyddio ein gwasanaethau yn y dyfodol.